# Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn

# Disgrifiad Swydd Dirprwy Bennaeth

---

**Teitl y swydd:** Dirprwy Bennaeth

**Yn atebol i:** Pennaeth

**Yn gyfrifol am:** **Fel y dirprwyir gan y Pennaeth**

**Adolygiad diwethaf o'r disgrifiad swydd:** Medi 2024

---

## Prif Ofynion

Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau proffesiynol athro/athrawes, gan gynnwys y dyletswyddau penodol hynny a bennwyd iddo/iddi gan y Pennaeth, rhaid i'r Dirprwy Bennaeth, dan gyfarwyddyd cyffredinol y Pennaeth, chwarae rhan o bwys yn:

a) llunio nodau ac amcanion yr Ysgol;

b) sefydlu'r polisïau er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;

c) rheoli staff ac adnoddau i'r perwyl hwnnw;

ch) monitro cynnydd tuag at eu cyflawni;

ac ymgymryd ag unrhyw rai o ddyletswyddau proffesiynol y Pennaeth a ddirprwyir yn rhesymol gan y Pennaeth.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles y plant a'r bobl ifanc y mae ef/hi yn gyfrifol amdanynt neu'n dod i gysylltiad â hwy. Bydd y Dirprwy Bennaeth yn gwerthfawrogi ac yn parchu safbwyntiau ac anghenion plant a phobl ifanc.

Mi fydd y dirprwy Bennaeth yn gyfrifol am ddau safle'r ysgol yn absenoldeb y Pennaeth. Lleolir yn bennaf ar safle Penllwyn.

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol y Dirprwy Bennaeth isod:

***Addysgu***

- Cynllunio a chyflwyno gwersi i'r dosbarthiadau y pennwyd ef/hi i'w dysgu o fewn cyd-destun cynlluniau, cwricwlwm a chynlluniau gwaith yr Ysgol.
- Cynllunio cyfleoedd addas i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
- Gosod amcanion dysgu ac addysgu heriol sy'n cael eu llywio gan ddisgwyliadau cytbwys o ddysgwyr unigol yn seiliedig ar wybodaeth am safonau disgwyliedig y grŵp oedran perthnasol ac ystod a chynnwys y gwaith sy'n addas i ddysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw.
- Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd ar anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion a bennwyd iddo/iddi.
- Cyfrannu at drefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol.
- Cynnal yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol y mae ef/hi yn gweithio oddi mewn iddo.
- Deall y cyd-destun polisi addysg cenedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, gan gynnwys dealltwriaeth o egwyddorion y Cwricwlwm Cymreig a sut y dylai lywio a siapio ei (h)arfer.
- Cyfrannu at wella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ledled y cwricwlwm.
- Cynnal gwybodaeth a dysg ym maes TGCh er mwyn cefnogi addysgu a dysgu a'i rôl broffesiynol ehangach.
- Deall Cod ADY Cymru a'i roi ar waith er mwyn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr.
- Deall y disgwyliadau yn y cwricwlwm o safbwynt darpariaeth Gymraeg a/neu Gymraeg ail iaith.

***Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad yr ysgol gyfan***

- Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r Ysgol mewn modd sy'n cefnogi gwerthoedd a gweledigaeth yr Ysgol.
- Gweithio gydag eraill ar ddatblygu'r cwricwlwm a/neu ddisgyblion er mwyn sicrhau canlyniadau cydgysylltiedig.
- Yn amodol ar ofynion 'cyflenwi ar achosion prin', arolygu ac, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, addysgu unrhyw ddisgyblion pan nad yw'r person a amserlennwyd i gymryd y dosbarth ar gael i wneud hynny.

***Iechyd, diogelwch a disgyblaeth***

- Hybu diogelwch a lles disgyblion.
- Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith y disgyblion.

***Rheoli staff ac adnoddau***

- Cyfarwyddo ac arolygu staff cymorth a bennwyd iddo/iddi a, lle bo’n briodol, athrawon eraill.
- Cyfrannu at recriwtio, dethol, penodi a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth.
- Defnyddio’r adnoddau a ddirprwyir iddo/iddi yn effeithiol.
- Rheoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol o fewn ei rôl broffesiynol ehangach.

***Datblygiad proffesiynol***

- Cyfrannu at drefniadau ar gyfer gwerthuso ac adolygu ei berfformiad/pherfformiad ei hun a, lle bo’n briodol, perfformiad athrawon eraill a staff cymorth.
- Cyfrannu at drefniadau ar gyfer ei hyfforddiant a’i (d)datblygiad proffesiynol pellach ei hun a, lle bo’n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys y cyfnod cyflwyno.
- Ymwneud yn weithgar â rhwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol sy’n rhannu ac yn profi credoau a dealltwriaethau gyda chyd-weithwyr a chyfrannu at ddatblygiad ehangach yr Ysgol a’r proffesiwn.
- Parhau i gwrdd â Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru).

***Cyfathrebu***

- Cyfathrebu â disgyblion, rhieni a gofalwyr.

***Gweithio â chyd-weithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill***

- Cydweithredu a gweithio â chyd-weithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill o fewn a’r tu hwnt i’r Ysgol.

# Manyleb Person

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Athro/Athrawes Cymwysedig Arbenigol<br><br>Cymhwyster/Gradd berthnasol<br><br>Sgiliau ysgrifenedig a chyflwyno gwych. | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd**<br><br>**(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod. | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Cymwysterau** | Statws Athro/Athrawes Gymwysedig Gradd neu achrediad cyfwerth. | | | |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Profiad diweddar, perthnasol a helaeth o rôl uwch reoli mewn ysgol;<br><br>• Profiad o wella ysgol, ynghyd â'r gallu i roi newidiadau cwricwlaidd ar waith;<br><br>• Ymarferwr stafell ddosbarth rhagorol a thystiolaeth o addysgu arloesol gyda disgyblion ar draws ystod eang o alluoedd;<br><br>• Profiad o ddadansoddi data asesu disgyblion yn fanwl fel sail ar gyfer dysgu ac addysgu; Profiad o reoli adnoddau ysgol. | | | |
| **Datblygiad Proffesiynnol** | • Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, materion a datblygiadau addysgol cyfredol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol disgyblion;<br><br>• Tystiolaeth o weithredu DPP ac o arwain / cydlynu cyfleoedd datblygiad proffesiynol;<br><br>• Gwybodaeth gadarn am y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymreig cyfredol a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar ynghyd â gwybodaeth helaeth am feysydd pwnc a fydd yn cynnig cefnogaeth i'r cwricwlwm.<br><br>• Gwaith llwyddiannus gyda Llywodraethwyr; | | | |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau Arwain** | Prawf o sgiliau arwain ardderchog, gan gynnwys:-<br>• Y ddawn i greu dyheadau sy'n hyrwyddo safonau cyrhaeddiad uchel i bawb;<br>• Annog a chefnogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol;<br>• Sgiliau ysgogol cryf i gynorthwyo gyda phrosesau newid;<br>• Ymrwymiad i hyrwyddo a diogelu lles disgyblion.<br>• Ymwneud â chymuned rhieni ysgol. |
| **Sgiliau Rheoli** | Y gallu i arddangos a phrofi fod gennych hanes o atebolrwydd mewn agweddau o reoli ysgol.<br><br>Y gallu i ddadansoddi data, datblygu cynlluniau strategol, gosod targedau a monitro / gwerthuso cynnydd parhaus.<br><br>Profiad o gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus cydweithwyr.<br><br>Ymgynghorol, gwrandäwr da, cefnogol i gydweithwyr a chyfranogol iawn. |
| **Sgiliau Cyfathrebu** | Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg, ysgrifenedig ac yn llafar.<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n hyderus ar bob lefel;<br><br>Defnydd cymwys o TGCh. |
| **Cryfhau Cysylltiadau Cymunedol** | Ymrwymiad cadarn i gynnal cysylltiadau â Llywodraethwyr, y gymuned leol, ysgolion lleol a'r Urdd.<br><br>Profiad o weithio gyda darparwyr Addysg Uwch sy'n cynnig Cymwysterau Addysgu |
| **Datblygu Polisïau a'r Cwricwlwm** | Tystiolaeth o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol.<br>Dealltwriaeth o ddatblygiad arferion dysgu effeithiol, ac ymrwymiad cryf iddo, trwy gydol cwricwlwm yr ysgol<br><br>Dealltwriaeth o bwysigrwydd datblygiad unigol pob disgybl er mwyn cyflawni ei lawn botensial. |
| **Amrywiaeth a Chyfleoedd Cyfartal** | Y gallu i arddangos ymrwymiad cadarn i osod gwerth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>Profiad o gefnogi disgyblion o gartrefi difreintiedig.<br><br>Profiad o gefnogi disgyblion gydag ADY. |